

**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**

**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
**Ffôn: 02920 490582**  
**E-bost: aluntudur@btinternet.com**

**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
**Ffôn: 01766 513138**  
**E-bost: IwanLlew@aol.com**

**Golygyddion**

**Alun Lenny**  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
**Ffôn: 01267 232577 /**  
**0781 751 9039**  
**E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk**

**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**  
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWE SA7 0AJ**  
**Ffôn: 01792 795888**  
**E-bost: undeb@annibynwyr.org**

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir y Pedair Tudalen  
Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r  
Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys y Pedair Tudalen.

## Gwrogaeth i'th ddeg ar hugain

Ar 13eg Fedi 1986, ordeiniwyd Alun Tudur yn weinidog i Iesu Grist yn Ebeneser, Wrecsam, gan ei dad, y diweddar Barchedig Dr R. Tudur Jones. Bu yno am 9 mlynedd hapus cyn ymuno gyda ni yma yn Ebeneser, Caerdydd ym mis Ebrill 1995. Ein braint ni oedd ei gael, i ddilyn ei frawd Geraint, yn arweinydd ifanc, brwdfrydig, egniol ac ysbrydoledig gyda gweledigaeth ac egwyddorion Cristnogol cadarn.



*Alun Tudur gyda'i dad R. Tudur Jones y tu allan i Ebeneser, Wrecsam ar ddydd ei ordeinio.*

Diolchwn i Dduw am ei ymroddiad a'i ymrwymiad difflino; ei bersonoliaeth gynnes a'i hiwmor iach, ac am ei gyfeillgarwch a'i agosatrwydd. Gwerthfawrogwn ei ofal cyson a'i gariad atom, ond yn bennaf ei dystiolaeth sicr a gloyw wrth ein harwain a'n goleuo yn y ffydd Gristnogol. Bu hefyd yn barod i ymestyn allan ar daith sydd mor heriol yn yr oes yma.

Daeth cynulleidfa luosog i Ebeneser ddydd Sul 11eg Medi i ddathlu 30 mlynedd Alun yn weinidog. Cymerwyd rhan, bore a hwyr, gan wahanol aelodau'n cynrychioli holl adrannau bywyd yr Eglwys. Roedd y festri'n llawn i gefnogi Alun a Vikki wrth iddynt dorri'r deisen arbennig a wnaed gan Gill Lewis.

I nodi'r digwyddiad arbennig, roedd y **Parch John Gwilym Jones** wedi cyfansoddi englyn:

Gwrogaeth i'th ddeg ar hugain - a rown,  
am dy ras yn arwain;  
cawn gariad dan dy adain,  
a geiriau coeth y gwir cain.

Bu'n ddeng mlynedd ar hugain cyfoethog, goleuedig a bendithiol dan arweiniad Alun. Boed i'r Arglwydd barhau i'w fendithio yn helaeth yn ei weinidogaeth.

**Malcolm Thomas,**  
**Ysgrifennydd Ebeneser**

## Canmlwyddiant ym Mhorthcawl



*Arweinydd y Gymanfa yn y Tabernacl: Iwan Guy, Elizabeth Jones (Organydd) a'r Parchg Rosan Saunders*

## DIWRNOD HANES 2016

### Cymdeithas Hanes yr Annibynwyr

#### IX. THE WELSH LANGUAGE.

The Welsh language is a vast drawback to Wales, and a manifold barrier to the moral progress and commercial prosperity of the people. It is not easy to over-estimate its evil effects. It is the language of the Cymri, and anterior to that of the ancient Britons. It disallows the people from intercourse which would greatly advance their civilisation, and bars the access of improving knowledge to their minds. As a proof of this, there is no Welsh literature worthy of the name.\* The only works generally read in the Welsh language are the Welsh monthly magazines of religious and domestic use, and the *Amgueddi* historical &c.

## Brad y Llyfrau Gleision

### ac Anghydfurfaeth yng Nghymru

gan yr Athro  
**PRYS MORGAN**  
FRHistS FSA FLSW

Bydd trafodaethau difyr am  
bobol a digwyddiadau  
hanesyddol eraill yn y pwnn.



**CAPEL BETHEL, SGETI SA2 9BJ**  
**DYDD SADWRN, HYDREF 29**  
**11.00**  
**CROESO CYNNES I BAWB**

Ysgrifennydd: Parchg Emyr Gwyn Evans [emyrwyn@btinternet.com](mailto:emyrwyn@btinternet.com)

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 43 Hydref 20, 2016 50c.

**Yr wythnos hon, yr ydym yn cofio gyda thristwch dwfn y trychineb enbyd hwnnw a ddigwyddodd yn Aberfan am 9.15am ar fore dydd Gwener, 21 Hydref 1966.**

**Y diwrnod hwnnw, lladdwyd 116 o blant a 28 o oedolion wrth i domen wastraff glo lithro i lawr ochr y dyffryn a tharo Ysgol Pantglas a thai cyfagos. Ni all geiriau fynegi ein cydymdeimlad â theuluoedd a phobl y pentref; ni allwn chwaith anghofio'r hyn a ddigwyddodd.**

**Anfonwyd neges gan yr Undeb, ar ran yr holl eglwysi sy'n perthyn iddo, ei swyddogion a'i staff, at gyn-aelodau a chyfeillion eglwys Bethania, Aberfan, ac at y gymuned yn gyffredinol, ar 12 Hydref.**

**Yr oeddem am iddynt wybod eu bod yn ein meddyliau a'n gweddiâu.**

## Hanes Llyfr Coffa Aberfan

Ym mis Ebrill 2007 y gwahoddwyd fi gyntaf i ymweld ag Aberfan. Nid oeddwn erioed wedi bod yno o'r blaen.

Yr oedd aelodau eglwys Bethania yn awyddus i drafod sefyllfa'r eglwys, a chan nad oeddwn wedi bod yn fy swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol ond am gwta saith mis, a chan fy mod yn ymwybodol o hanes y trychineb mawr oedd wedi taro'r pentref ym 1966, er bod Ann Williams, Ysgrifennydd Gweinyddol yr Undeb yn dod yno gyda mi, yr oedd y nerfusrwydd a'r ansicrwydd oedd wedi cydio ynof wrth fynd yn ymylu ar fod yn ofn.

Cefais fy hun yng nghwmni rhai o'r bobl hyfrytaf y bûm yn eu cwmni erioed. O gwmpas bwrdd mewn cegin, buom yn sgwrsio'n gyfeillgar a chynnes am sefyllfa'r achos ym Methania. Bûm yno lawer tro wedi hynny, gyda phob ymweliad yn fy nghyfoethogi wrth i eiriau ac agweddau'r rhai yr oeddwn yn cyfarfod â hwy ddod yn destun edmygedd mawr i mi.

Wedi trafod cryn dipyn, penderfyniad aelodau eglwys Bethania oedd datgorffori'r eglwys, a gwneud hynny gydag urddas. Yr oedd eu niferoedd wedi mynd yn fychan a'r adeilad newydd a roddwyd iddynt yn dilyn trychineb 1966 yn achosi trafferthion dirifedi. Y cais oedd i ni fel Undeb eu cynorthwyo i ddirwyn yr achos i ben.

Yn ystod un cyfarfod, soniwyd am 'y Llyfr'. 'Beth oedd i ddigwydd i hwnnw?', oedd y cwestiwn. Yn f'anwybodaeth holais am ba lyfr yr oeddem yn son, ac eglurwyd mai am y Llyfr Coffa oedd yn cael ei gadw, a'i arddangos, yng nghyntedd Bethania. Aethpwyd a fi i'w weld.



Hyd yn oed yn y cyntedd tamp hwnnw, yng ngoleuni'r gwyll, ni allwn lai na rhyfeddu at ei brydferthwch. Yr oedd enwau'r sawl o laddwyd yn y trychineb wedi eu rhestru yn ôl mis a dyddiad eu pen-blwydd, ac eglurwyd i mi ei bod yn arferiad fod tudalen yn cael ei thro'i ar ddechrau pob mis fel bod enwau'r rhai oedd a'u pen-blwydd yn y mis hwnnw yn cael eu harddangos. A'r defnydd o'r capel wedi peidio, a neb yn mynd i weld y Llyfr, yr oedd y tudalennau yn dal i gael eu troi gan yr aelodau.

Nid oedd neb y bûm i yn siarad â hwy yn Aberfan yn gwybod o ble yr oedd y Llyfr wedi dod, na llaw pwy oedd yn gyfrifol am y llythrennu cain. Er hynny, yr oedd yn amlwg i mi fod y Llyfr hwn yn gwbl unigryw a hefyd yn drysor cenedlaethol.

Buom yn trafod nifer o weithiau'r hyn y gellid ei wneud â'r Llyfr, ond yn y diwedd, gyda chaniatâd cyfeillion Bethania oedd wedi ymgynghori erbyn hynny â nifer o'u cyd-bentrefwyr, euthum at Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol, y Barwn Dafydd Elis-Thomas, i ofyn a fyddai'r Cynulliad

yn rhoi lle o anrhydedd i'r Llyfr ac yn caniatáu ei arddangos yn gyhoeddus pe trosglwyddid ef i ofal y Cynulliad gan aelodau Bethania?



Yr oedd dau amod yn dod gyda'r cais. Yn gyntaf, pan fyddai'r Llyfr yn cael ei arddangos, y byddai'r tudalennau yn parhau i gael eu troi yn fisol fel ag yr oeddent yn cael eu troi yng nghyntedd Bethania. Yn ail, bod copi yn cael ei wneud o'r Llyfr i'w gadw yn Aberfan. Derbyniwyd y ddau amod, ac yng ngwasanaeth datgorffori eglwys Bethania ar ddydd Sul, 30 Medi 2007, trosglwyddwyd y Llyfr yn ffurfiol i ofal Llywydd y Cynulliad.

Er hynny, nid oedd y Llyfr i adael y pentref eto. Rhaid yn gyntaf oedd trefnu gwneud copi ohono. Gwnaethpwyd ymholiadau yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, a chafwyd parodrydd ar unwaith i ymgymryd â'r gwaith. Yn ychwanegol at hynny, gofynnodd y Llyfrgell am ganiatâd i wneud ail gopi fyddai'n cael ei gadw yn y Llyfrgell, ac wedi ymgynghori â chyfeillion Bethania, cafwyd caniatâd. Hyfryd yw medru dweud fod y Llyfrgell, o ystyried pwysigrwydd ac arwyddocâd y Llyfr, wedi gwneud y gwaith yn gyfan gwbl am ddim. Yr oedd hynny'n rhywbeth a werthfawrogwyd yn fawr gan bobl Bethania.

A'r trefniadau wedi eu gwneud, gofynnwyd i mi fynd i Aberfan eto ar ddydd olaf mis Ionawr 2008, y tro hwn i gymryd gofal o'r Llyfr Coffa a'i drosglwyddo i adeilad y Cynulliad yng Nghaerdydd. I fod yn gwmni i mi yn y dasg, euthum a'm brawd Alun, gweinidog Ebeneser, Caerdydd, gyda mi. Wedi derbyn y Llyfr a chychwyn ar y daith i lawr i'r briffddinas, bu i ni aros ar ochr y ffordd i ddarllen pob tudalen yn ei thro. Gorffennwyd y daith mewn distawrwydd.



Wedi i'r Llyfrgell Genedlaethol gwblhau'r gwaith o wneud y copïau, gosodwyd y Llyfr Coffa gwreiddiol yn adeilad y Pierhead gerllaw'r Senedd ym Mae Caerdydd. Yno y mae heddiw i bobl fedru ei weld ac o weld, gofio'r anwyliaid hynny, o bob oed, a laddwyd ar y bore Gwener hwnnw yn Hydref 1966.

Geraint Tudur

## Cyngor Cynhyrchiol

### ADRAN CENHADAETH A'R EGLWYS FYD-EANG

Cafwyd cyfarfod bywiog a diddorol o'r Adran Cenhadaeth, gyda nifer o faterion yn mynd a sylw cynrychiolwyr y Cyfundebau ac yn tanio eu dychymyg.

Fel sy'n arferol yn y cyfarfodydd hyn, rhaid oedd derbyn adroddiadau o amrywiol gynadleddau, ac o sefyllfa amrywiol weithgareddau, a theimlwn ddyled i'r cyfeillion hynny'n fu'n ein cynrychioli yng Nghymanfa CWM yn Ne Corea, yng nghynhadledd CWM Ewrop yn Wittenberg yn yr Almaen, ac ym mhwyllgorau trefnu gwaith ieuencid CWM Ewrop. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud ein cyfraniad y tu allan i'r cylchoedd yr ydym yn troi ynddynt o ddydd i ddydd. Diolch hefyd i'n cynrychiolwyr ym Mhenrhys ac mewn amrywiol bwyllgorau yn Llundain.

Wedi derbyn adroddiad am Babel yr Eglwys yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf, gofynnodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol pan nad oedd gan yr Undeb, sydd â chymaint o'i eglwys yn rhai gwledig, uned faterion gwledig

ac/neu amaethyddol i ymdrin â materion perthnasol i'r diwydiant amaeth a chefn gwlad yn gyffredinol. Cafwyd ymateb brwd, a phenderfynwyd trafod y posibilrwydd ymhellach a'i gyflwyno fel syniad i'r Pwyllgor Gweinyddol. Bydd hynny'n digwydd ym mis Tachwedd.

Soniwyd fod Mrs Elenid Jones a Mr Robat Powell newydd ddychwelyd yn ôl o Fadagascar yn dilyn taith yno ar ran yr Undeb i drafod dathliadau daucanmlwyddiant glaniad y cenhadon yn 2018. Bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn cyfarfod â hwy yn union wedi'r Cyngor.

Nodwyd mai tasg Cystadleuaeth Cwpan Denman 2017 fyddai cyflwyniad celf ar y thema, 'Byw'r Beibl'. Yn achos fideos a chyflwyniadau PowerPoint, gallant fod hyd at 5 munud o ran eu hyd. 'Byw'r Beibl' hefyd fydd thema'r gystadleuaeth siarad cyhoeddus (Tlysau Cyfundeb Lerpwl). Cyhoeddir y manylion a'r amodau cyn bo hir.

Dywedwyd y bydd y Parchg Wayne Hawkins, Ysgrifennydd Cenhadol CWM Ewrop yn ymweld â'r Undeb ym mis Tachwedd, ac y bydd yn trafod gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol amrywiol agweddau o'r gwaith a'r prosiectau y mae CWM yn eu noddi.

**Geraint Tudur, Ysgrifennydd**



## CENHADON Y TRAETH

Mae'r cysylltiad rhwng Eglwys Annibynnol Towyn, Cei Newydd a Chenhadon y Traeth (United Beach Missions) yn mynd nôl bron i hanner can



mlynedd – sef ers y tro cyntaf i Genhadon y Traeth ddefnyddio Cei Newydd fel un o'u canolfannau. Yn y blynyddoedd cynnar, defnyddiwyd Ffestri'r Capel fel pencadlys ar gyfer eu hymwelriad blynyddol, ac erbyn hyn, defnyddir yr adeilad fel man aros ar gyfer y dynion.

Mae canolfannau gan Genhadon y Traeth ym Menllech, Llandudno a Chei Newydd yng Nghymru, ac mae ganddynt nifer o leoliadau yn Lloegr ac Iwerddon. Nod y mudiad hwn yw lledaenu neges yr Efengyl mewn amrywiol ffyrdd i blant, ieuencid, oedolion a theuluoedd, a hynny mewn digwyddiadau amrywiol a gynhelir yn ddyddiol ar y traeth.

### Oedfaon Cenhadol

Fel rhan o'u tystiolaeth eleni yng Nghei Newydd, bu'r Cenhadol yn cynnal gwasanaethau teuluol yng Nghapel Towyn. Er taw trwy gyfrwng y Saesneg y cynhaliwyd yr oedfaon, defnyddiwyd y Gymraeg gan yr aelodau oedd yn medru'r iaith mewn dwy o'r oedfaon. Cynhaliwyd cyfanswm o bum oedfa dros yr haf, a braf oedd cael cwmni rhai o aelodau Gofalaeth Eglwys Annibynnol Cei Newydd, ymwelwyr o bell ac agos, ynghyd â rhai o drigolion tai haf y Cei yn bresennol yn yr oedfaon.

### Amrywiaeth

'Roedd yr oedfaon yn amrywio o ran dulliau cyflwyno, ond gyda neges yr Efengyl yn ganolog i bob dull. Bu cyfle mewn dwy Oedfa i gyflwyno hanes Cristnogaeth yn y Cei, a'r effaith a gafodd hynny ar Gristnogaeth trwy Gymru benbaladr. Braf oedd cael clywed tystiolaeth nifer o bobl ifanc oedd yn aelodau o'r tîm cenhadol am eu profiadau o dderbyn yr Arglwydd Iesu fel Gwardwr yn ystod yr Oedfaon. Dyma'r tro cyntaf ers tua 30 mlynedd i Genhadon y Traeth gynnal Oedfaon yng Nghapel Towyn, a gobeithir y bydd modd i hyn barhau'r flwyddyn nesaf ac i'r dyfodol.

**Neville Evans**

## BETHEL, SGETI, ABERTAWE

Bydded yn hysbys fod oedfa'r hwyr am 5 o'r gloch ar y trydydd Sul o bob mis yn oedfa llai ffurfiol yn cynnwys bwyta cyri.

Croeso i bawb!

## E. Denzil James

*Roedd Capel Y Priordy, Caerfyrddin yn llawn bnawn Llundun, Medi 19, ar gyfer oedfa i ddiolch am fywyd y diweddar Barchg. E.*

*Denzil James. Roedd y dyrfa fawr, yn arwydd sicr o'r parch fu iddo. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Betsan ei ferch, Emrys ei frawd a'r teulu cyfan. Dyma grynodedd o deyrnged y Parchg Beti-Wyn James iddo.*



Ein braint heddiw yw diolch am Denzil. Nid yw'r diolch yn anodd gan fod gennym gant a mil o destunau diolch.

Trown at y Testament Newydd er mwyn cael llwybr i'n diolch. Yno gwelwn Iesu yn talu teyrnged arbennig i Ioan Fedyddiwr drwy ddweud 'Cannwyll oedd Ioan yn llosgi ac yn llewyrchu.' (Mathew 5)

### Ioan Fedyddiwr

Mae Ioan yn gymeriad pwysig yn nrama'r Efengyl. Yn yr un modd bu Denzil yn gymeriad pwysig yn nrama bywyd llawer ohonom ni. Camodd i mewn i'n bywydau yn ystod act arbennig ar lwyfan bywyd, gan ychwanegu'n fawr at ein stori. Ni ellir cymharu steil gwisg Ioan â Denzil! Tra bod Ioan yn bodloni ar wisgo cot o flew camel, nid oedd Denzil yn bodloni ar ddim llai na bod yn gwbl drwsiadus, urddasol a smart. Pregethwr poblogaidd a grymus oedd Ioan. Nid oedd neb yn credu mwy mewn pregethu'r Gair na Denzil, a bu'n gwneud hynny'n ffyddlon tra gallai. Roedd Ioan yn perthyn i ddau gyfnod - cyfnod yr Hen Destament a chyfnod y Testament Newydd - roedd yn niwedd y dechrau ac yn nechrau'r diwedd. Gallwn ddweud bod Denzil wedi gweinigogaethu mewn sawl cyfnod gwahanol. Gwelodd her y weinigogaeth yn newid ac a llwyddodd i addasu i'r her honno.

Ond beth yw ystyr y gymhariaeth 'Cannwyll oedd Ioan yn llosgi ac yn llewyrchu.?' Nodwn dri pheth.

### 1. Nid yw'r gannwyll yn tynnu sylw ati ei hunan.

Does neb ohonom yn cynnau cannwyll er mwyn gweld y gannwyll ond yn hytrach er mwyn gweld rhywbeth neu rhywun arall. A dyna a wnaeth Ioan. Adlewyrchu neges Iesu Grist, ac nid tynnu sylw ato ei hunan. Onid dyna yw braint pob gweinigod? Gwyddai Denzil am y fraint honno ac fe'i cyflawnodd yn ffyddlon am drigain mlynedd gan wasanaethu mewn cylchoedd - Ffynnonbedr a Gibeon; Maenclochog a Llandeilo, Gwynfryn, Rhydaman, Tabernacl a Charmel Treforys, Penygraig, Rama a Nasareth Pontiets cyn ymddeol yma i'r Priordy. Yn ei holl ofalaethau bu'n fugail tyner dros ei braidd. Roedd hefyd yn fugail y bugeiliaid hefyd. Gofalai am ei gyd-weinigodion gan gynnwys ei weinigod ei hunan yn y Priordy! Taflu goleuni ac nid tynnu sylw ati ei hun

a wna'r gannwyll. Nodwn hefyd, a hynny heb dynnu yn ormodol ar dannau'r galon, i Denzil, ym Mair, ac yn Val gael dau berson, a dau gymar yr oedd gwaith yr Efengyl, yr un mor bwysig iddynt hwy ac yr oedd i Denzil. Buont ill dwy yn gefn mawr iddo yn ei waith.

Ond rhaid cynnau'r gannwyll cyn y gall oleuo. Duw sy'n ein cynnau ni ac yn ein galw i'w waith. Profodd Denzil yr alwad hon o'r dyddiau cynnar yn Alltwalis, o dan weinigogaeth Y Parchg Dr Emlyn Jenkins a'r Parchg Idwal Jones. Wedi cyfnod o hyfforddiant yng Ngholeg y Presby yng Nghaerfyrddin, fe'i hordeiniwyd i lewyrchu goleuni Crist mewn gair a gweithred am weddill ei oes.

### 2. Mae'r gannwyll yn rhoi o'i hunan.

Gall pob cannwyll roi goleuni ei hunan, beth bynnag yw ei maint. Doniwyd Denzil â doniau arbennig iawn ac yra oedd yn gorfforol gryf. O ddyddiau ei fagwraeth yn Llwyn Glas, Peniel, ymroddodd yn llwyr i waith. Medrai droi ei law at bopeth ac yr oedd yn fawr ei gymwynas gyda'i ddoniau ymarferol. Cofir amdano gan lawer oherwydd ei ddawn arbennig i annerch y genhedlaeth iau.

Gallwn fod yn siŵr y byddai sawl cornel tywyll mewn llawer i bulpud, cylch a chymdeithas pe na bai Denzil wedi rhoi o'i hunan, ac o'i ddoniau i lewyrchu Crist yn ein plith. Yn yr un modd, yn y cylchoedd diwylliannol lle bu'n gweinigogaethu heb sôn am ei ffyddlondeb i bopeth Cymraeg a Chymreig yn genedlaethol. Byddai'n dywyll hefyd ar yr aelwyd oni bai ei fod wedi rhoi o'i hunan fel tad i Betsan, fel priod ffyddlon i Mair hyd ei marw ym mlodau ei dyddiau, ac yn ddiweddarach i Val. Ni fu bywyd heb ei stormydd, ond ni ddiffoddodd fflam ei ffydd.

### 3. Mae'r gannwyll yn rhoi EI hunan.

Onid dyna ystyr y gair "llosgi" yn yr adnod hon? 'Cannwyll oedd Ioan yn llosgi' Meddai Paul wrth annerch y Rhufeiniaid, 'Yr wyf yn ymbil arnoch frodyr i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw sanctaidd a chymeradwy gan Dduw...' Rhaid wrth aberthu'r hyn sydd gennym o bryd i'w gilydd - ac mae'n sicr bod Denzil wedi aberthu llawer yn ystod blynyddoedd ei weinigogaeth.

Ond sôn a wna Paul am yr angen i ni aberthu'n hunain. Ystyr 'aberth' yw gollwng gafael. Dymuniad Paul yw i ni ollwng gafael arnom ni'n hunain er mwyn i Dduw gael gafael ynom. Roedd Denzil yn brofiadol o'r gollwng gafael hwn, ac yn ymwybodol bod Duw yn gafael yn ei fywyd. A dyna'r genadwri bregethodd ar hyd blynyddoedd ei weinigogaeth. Y gwirionedd syfrdanol mai mawredd Crist oedd iddo ollwng gafael arno'i hun, drwy ddarostwng ei hun hyd angau, "ie, angau ar groes."

Aeth Denzil o'r byd hwn, wedi ei amgylchynu gan gariad y teulu, yn arbennig Betsan - ac roedd cwlwm tynn iawn rhwng tad a merch - ond hefyd gyda'r sicrwydd bod Duw, trwy aberth Iesu yn ei amgylchynu a'i gariad. Cariad croes Calfaria a'r bedd gwag. George Rees sy'n canu yn ei emyn godidog:

*'Cans llosgi wnaeth dy gariad pur pob cam, ni allodd angau ei hun ddiffoddi'r fflam.'*

*'Cannwyll oedd yn llosgi ac yn llewyrchu.'* Ni ellir meddwl am deyrnged uwch y gellir ei rhoi i'r gŵr arbennig hwn.

Beti Wyn James

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## DYMA FFYDD

Galwad i artistiaid gweledol eglwysi'r Annibynwyr Cymraeg

Mae'r Undeb, trwy'r Ysgrifennydd Cyffredinol, yn awyddus i drafod a threfnu arddangosfa gelf weledol ar y thema o *Dyma Ffydd*

Efallai eich bod wedi creu gwaith sydd ...

... yn ddatganiad o ffydd a gobaith

... yn archwilio ffydd a gobaith

... yn canolbwyntio'n benodol ar agweddau o ffydd

**Os hoffech fod â rhan yn y drafodaeth ac os oes gwaith gweledol gennych i'w gynnig ar y thema, hoffem glywed gennych ar frys!**

## Diwrnod Hanes Cymdeithas Hanes yr Annibynwyr

Dewch i Fethel Sgeti ar Ddydd Sadwrn 29 Hydref eleni. Mae gan y Gymdeithas Hanes arlwy gyffrous ar ein cyfer.

Darlithydd ysbrydoledig ym mherson yr Athro Prys Morgan, Abertawe yn traddodi ar hanes 'Brad y Llyfrau Gleision ac Anghydfurfiaeth yng Nghymru' yn y bore. Wedi toriad i ginio, clywed am un o weinigodion amlwg Abertawe sef Dafydd Dafis (1763 - 1816), gan Emrys Gwyn Evans; dechrau clywed am hanes y genhadaeth i Fadagascar gan Robert Powell, bod yn ymwybodol o waddol ein cenhadaeth ar yr ynys, a meddwl mlaen ar gyfer y dathliadau mewn dwy flynedd yn 2018. Ac i gloi'r dydd ymweliad â Chanolfan Calon Lân, y ganolfan newydd yn y Mynydd-bach, sef y capel a mam-eglwys achosion yr Annibynwyr Cymraeg yng nghyffiniau Abertawe, a mwynhau paned a phice ar y maen a chlonc yno cyn mynd am adref. Cawn ddiwrnod wrth ein bodd, felly dewch yn llw.